



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 29 Ebrill 2021 am 10.30 am

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon Y Cyngorydd G Hopkins

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd M Tegg

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant

90 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Cyhoeddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth Fuddiant Personol yn Eitem 3 - Amlosgiadau Uniongyrchol: 'Rwy'n Aelod o Bwyllgor Amlosgfa Llwydcoed';
- Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd Fuddiant Personol yn Eitem 6 - Cynnig Grant Tai Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf 2021/2022: 'Mae un o'r cynlluniau arfaethedig a restrir yn adran 5.4, a fydd yn derbyn y dyraniad Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2021/2022, o fewn fy ward';
- Cyhoeddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol Fuddiant Personol yn Eitem

6 - Cynnig Grant Tai Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf 2021/2022: 'Mae un o'r cynlluniau arfaethedig a restrir yn adran 5.4, a fydd yn derbyn y dyraniad Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2021/2022, o fewn fy ward';

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick Fuddiant Personol yn Eitem 7 - Blaenoriaethau Buddsoddi Cynllun Corfforaethol y Cyngor: 'Mae dwy o'r strydoedd y cyfeiriwyd atyn nhw yn fy ward'

91 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2021 yn rhai cywir.

92 Amlosgiadau Uniongyrchol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned gyfle i'r Cabinet ystyried canlyniad y prosiect peilot i gynnig amlosgiadau uniongyrchol yn Rhondda Cynon Taf, a chymeradwyo cyflwyno'r gwasanaeth hwn yn barhaol.

Clywodd yr Aelodau fod y cynllun peilot o ran cynnig amlosgiadau uniongyrchol i deuluoedd mewn profedigaeth, a gafodd ei gynnal rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Tachwedd 2020, wedi cael ymateb da, a bod 65 o amlosgiadau uniongyrchol wedi digwydd, 28 yng Nglyn-taf a 37 yn Llwydcoed. Yn ystod y tri mis dilynol, roedd 31 o amlosgiadau uniongyrchol eraill ar draws y ddwy amlogfa.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol fod y peilot wedi dangos bod galw am amlosgiadau uniongyrchol, a chymeradwyodd yr argymhellion sydd yn yr adroddiad, o ran bod y Cyngor yn parhau i gynnig y gwasanaeth i'w drigolion.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r cynllun i barhau â'r gwasanaeth amlosgi Uniongyrchol/Syml yn Amlogfa Glyn-taf, am y ffi ragnodedig is o £568 ar gyfer 2021/22 ac yn unol â'r gyfradd a roddwyd ar waith ar gyfer y cynllun peilot;
2. Bod lefel y ffioedd Amlosgi Uniongyrchol ar gyfer 2022/23 ymlaen yn cael ei phennu'n rhan o ystyriaeth y Cabinet o ffioedd a thaliadau'r Cyngor bob blwyddyn; a
3. Bod diweddariad yn cael ei adrodd i Gydbwyllgor Amlogfa Llwydcoed yn gofyn am drefnu trefniadau amlosgi uniongyrchol yn Amlogfa Llwydcoed yn unol â'r rhai a gymeradwywyd ar gyfer Amlogfa Glyn-taf.

93 Theatrau RhCT: Cynnig Nadolig 2021

Rhoddodd y Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant amlinelliad i'r Cabinet ynghylch cynnig i ddatblygu cynhyrchiad digidol o 'Aladdin' ar gyfer Theatrau RhCT, i'w rannu â'r gymuned ym mis Rhagfyr 2021. Nododd y swyddog yr ansicrwydd parhaus ynghylch ailagor theatrau a nododd y byddai'r cynnig yn galluogi Theatrau RhCT i gynllunio'n effeithiol i sicrhau a chynhyrchu

rhaglen Nadolig llawn hwyl, sy'n rhad ac am ddim i drigolion RhCT.

Dywedodd y swyddog mai cost y cynnig fydd tua £75,000 ac fel cleient Portffolio Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n derbyn cyllid refeniw, byddai £45,000 yn cael ei ddyrannu o'r gyllideb. Pe bai'r cynhyrchiad yn gyfan gwbl ar-lein ac felly ar gael i'w wylïo'n rhad ac am ddim, esboniwyd na fyddai unrhyw incwm yn cael ei gynhyrchu. Serch hynny, pe bai'r sefyllfa'n gwella a bod modd i theatrau agor yn ystod yr ŵyl, byddai modd arddangos y cynhyrchiad ar ffurf sinema o fewn Theatrau RCT, a byddai modd cynhyrchu incwm, o bosibl trwy werthu tocynnau.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, fel llawer o sectorau eraill, fod sector y Celfyddydau a Diwylliant wedi dioddef dros y flwyddyn ddiwethaf, o ganlyniad i bandemig Covid-19 a chanmolodd y swyddogion am addasu eu gwaith i ddiwallu anghenion y preswylwyr. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi bod cynhyrchiad digidol 2020 o 'Once Upon a Time' wedi cael ei wylïo 10,101 o weithiau, ac wedi denu 205 o danysgrifwyr newydd i sianel YouTube Theatrau RCT, a oedd newydd ei sefydlu. Mae hyn yn dangos y galw am ddarpariaeth o'r fath.

Adleisiodd Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth y sylwadau blaenorol a phwysleisiodd yr angen am bositifrwydd adeg y Nadolig yn ystod cyfnod mor heriol.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Pwysu a mesur cynnwys yr adroddiad;
2. Cymeradwyo'r cynnig i gynhyrchu sioe Nadolig Aladdin i'w rhannu ar-leir yn ystod mis Rhagfyr 2021, a chymeradwyo'r gyllideb ychwanegol o £30,000 i gyflawni'r cynhyrchiad a sicrhau bod modd ei wylïo'n rhad ac am ddim trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor; a
3. Gohirio cynhyrchiad pantomeim byw 'Dick Whittington' tan fis Rhagfyr 2022.

94 Hwb Trafnidiaeth y Porth: Gorchymyn Prynu Gorfodol

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau'r Rheng Flaen, yr adroddiad, sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i arfer pwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol mewn perthynas â thir ger safle Hwb Trafnidiaeth y Porth at y diben o greu llwybr mynediad diogel i'r cyfleuster newydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai caffael y tir angenrheidiol yn golygu bod modd adeiladu Hwb Trafnidiaeth y Porth, a fyddai'n dod â gwell cysylltedd yn yr ardal ehangach, ac a fyddai â'r potensial i ddenu rhagor o bobl i weithio a byw yn y dref, yn ogystal ag ymweld â hi a buddsoddi ynddi.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth er gwaethaf ymdrechion gorau'r Cyngor dros gyfnod helaeth o amser, ni ddaethpwyd i gytundeb addas gyda'r partiön yr effeithiwyd arnynt hyd yma ac felly, gofynnwyd am gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod Gorchymyn Prynu Gorfodol yn cael ei wneud, ei gadarnhau a'i weithredu, os oes angen.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth am yr adroddiad ac roedd yn falch o gefnogi'r argymhellion. Roedd yr Arweinydd yn gobeithio y byddai'r trafodaethau blaenorol parhaus yn golygu na fyddai'n rhaid i'r Cyngor fwrw ymlaen â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ond roedd yn teimlo bod angen hyn wrth

gefn er mwyn caffael tir sy'n rhan annatod o lwyddiant y prosiect.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai am fuddion tymor hir y cynllun a'r effaith gadarnhaol ar fasnachu yn Stryd Hannah, y Porth, yn benodol.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Ystyried y gwaith rhagarweiniol o ran buddsoddi a galluogi a wnaed er mwyn paratoi'r safle datblygu ar gyfer Hwb Trafnidiaeth y Porth a safle'r cyfleuster fel prosiect angor o fewn Strategaeth ehangach Canol Tref y Porth;
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyfadran - Ffyniant, Datblygiad a Gwasanaethau Rheng Flaen i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod Gorchymyn Prynu Gorfodol (os oes angen) yn cael ei wneud, ei gadarnhau a'i weithredu mewn perthynas â'r tir a nodwyd yn y cynllun yn Atodiad [1] i'r adroddiad, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r canlynol:
 - Pob cam hyd at geisio cymeradwyaeth ar gyfer y Gorchymynion Prynu Gorfodol gan Weinidogion Cymru (neu, os yw hynny'n cael ei ganiatáu, gan y Cyngor yn unol ag Adran 14A o Ddeddf Caffael Tir 1981), gan gynnwys paratoi a chyflwyno achos y Cyngor ar gyfer unrhyw Sylwadau Ysgrifenedig, Gwrandawriad neu Ymchwiliad Cyhoeddus a all fod ei angen;
 - Cyhoeddi a chyflwyno hysbysiadau o gadarnhad o'r Gorchymynion Prynu Gorfodol, ac ar ôl hynny, gweithredu a chyflwyno unrhyw Ddatganiadau Breinio Cyffredinol a/neu Hysbysiadau i Drafod Telerau a Hysbysiadau Mynediad;
 - Cael y buddiannau angenrheidiol yn y tir;
 - Atgyfeirio anghydfodau sy'n ymwneud ag iawndal prynu gorfodol i'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau);

95 Rhondda Cynon Taf: Cynnig Grant Tai Cymdeithasol 2021/2022

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, wybod i aelodau'r Cabinet am y cynnig Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2021/2022 a'r effaith gadarnhaol bosibl y bydd y grant hwn yn ei chael o ran diwallu anghenion tai a chefnogi twf economaidd ledled Rhondda Cynon Taf.

Hysbyswyd yr aelodau am ddyraniad Llywodraeth Cymru o £100 miliwn ychwanegol i'r rhaglen Tai Cymdeithasol, gan gynyddu cyfanswm y buddsoddiad i bron £250 miliwn yn 2021-22. Nod hyn yw cefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi i adeiladwyr sy'n fusnesau bach a chanolig, yn ogystal â chadwyni cyflenwi lleol. Yn dilyn y cyhoeddiad, roedd RhCT wedi derbyn cadarnhad gan LIC mai dyraniad Grant Tai Cymdeithasol 2021/2022 fyddai £15.3 miliwn. O'r herwydd, tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Adran 5.4 yr adroddiad, lle roedd yr 14 cynnig arfaethedig ar gyfer derbyn y dyraniad Grant Tai Cymdeithasol yn 2021/2022 wedi'u hamlinellu i'w hystyried.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai y

buddsoddiad sylweddol mewn tai cymdeithasol, a fyddai'n helpu'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau'r CDLI. Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar y cyfle i ganmol ansawdd uchel y cynlluniau, sy'n ateb galw'r gymuned.

Croesawodd yr Arweinydd y buddsoddiad ychwanegol hefyd a nododd fod adeiladu tai yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth wrth symud allan o'r pandemig.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gymraeg y galw mawr am lety fforddiadwy o safon uchel a manteisiodd ar y cyfle i ganmol ansawdd y cynlluniau yn ei ward ei hun.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi'r cynnig Grant Tai Cymdeithasol newydd ar gyfer 2021/2022; a
2. Nodi'r cynlluniau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad i dderbyn y dyraniad y Grant ar gyfer 2021/2022, a'r buddion a ddaw yn sgil y grant yma o ran diwallu angen tai a chefnogi twf economaidd ledled RhCT.

96 Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2024 Blaenoriaethau Buddsoddi

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol adroddiad sy'n nodi'r sefyllfa o ran adnoddau unwaith-ac-am-byth sydd ar gael o ganlyniad i ddyfarnu cyllid allanol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn ystod mis Mawrth 2021, ar ôl i'r Cyngor llawn gymeradwyo Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar 10 Mawrth 2021. Roedd cynnig i ddyrannu cyllid pellach o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (wedi'u neilltuo ar gyfer gwaith seilwaith) i ategu'r cyllid ychwanegol gan LIC.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad ac roedd yn falch o nodi'r pedwar maes o fuddsoddiad ychwanegol, gwerth cyfanswm o £6.540 miliwn, a oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol, "Gwneud Gwahaniaeth" 2020 - 2024.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick am yr eitem yma.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi'r adnoddau ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru; a
2. Cytuno â'r trefniadau buddsoddi ac ariannu ychwanegol fel y nodir yn Adran 4 yr adroddiad.

97 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod yma yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff xx o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

98 Dileu dyledion nad oes modd eu casglu

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau ddatganiad sefyllfa i'r Cabinet ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Dileu'r cyfrifon sydd wedi'u nodi yn yr atodlen sydd wedi'i hatodi i'r Ddarpariaeth o Ddyledion sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor (gan geisio taliad os daw rhagor o wybodaeth am unrhyw ddyled i'r amlwg).

99 Caffael Tir i'r Gogledd Orllewin o Harriet Street, Trecynon, sef hen Ffatri Mayhew Chicken, Trecynon, Aberdâr, RhCT

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor yr adroddiad, sy'n ceisio awdurdod i gaffael budd rhydd-ddaliol tir i'r gogledd orllewin o Stryd Harriet, Trecynon, sef hen safle ffatri Mayhew Chicken. Mae'r safle mewn lleoliad allweddol ger ffordd osgoi Aberdâr, ac felly bydd yn hwyluso datblygu gorsaf drenau newydd gyda chyfleuster parcio a theithio.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. I brynu'r budd rhydd-ddaliol o oddeutu 2.89 Ha/7.15 erw o dir ar hen safle ffatri Mayhew Chicken, Trecynon, Aberdâr, am bris prynu o £850K ynghyd â TAW a Threth Trafodiadau Tir o £38.9K.

100 Caffael Tir ac Adeiladau yn Willowford House, Heol Rhyd-yr-Helyg, Gwaelod-y-Garth, Ffynnon Taf

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor adroddiad sy'n ceisio awdurdod i gaffael budd rhydd-ddaliol tir ac adeiladau yn Willowford House, Heol Rhyd-yr-Helyg, Gwaelod-y-Garth, Ffynnon Taf, sy'n cynnwys eiddo preswyl a'r tir gerllaw, sy'n goetir yn bennaf. Mae'r safle mewn lleoliad allweddol ger Heol Rhyd-yr-Helyg er mwyn hwyluso datblygu gorsaf drenau newydd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Prynu budd rhydd-ddaliol o oddeutu 1.56 Ha/3.87 erw o dir yn Willowford House, Heol Rhyd-yr-Helyg, Gwaelod-y-Garth, Ffynnon Taf am bris prynu o £550K ynghyd â Threth Trafodiadau Tir o £21.2K. Yn ogystal â hynny, bydd costau iawndal o £88K hefyd yn daladwy yn unol â'r Cod lawndal, gan arwain at gyfanswm cost caffael o £659K.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.03 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**